

Wrth bwy ddylech chi gwyno

Cyngor ar Bopeth Gwynedd

Prif Weithredwr Cyngor ar Bopeth Gwynedd neu Gadeirydd yr Ymddiriedolwyr yn y cyfeiriad isod:

Cyngor ar Bopeth
Siambur Buddug, Glan Môr Ucha
Caernarfon
Gwynedd LL55 1SY

Neu ebost i admin@cabgwynedd.cymru

I gysylltu â thîm adborth Cyngor ar Bopeth: 03000 231 900

feedback@citizensadvice.org.uk

Gwasanaeth Ombwdsmon Ariannol

Yn y post:

Financial Ombudsman Service
South Quay Plaza
183 Marsh Wall
London E14 9SR

Dros y ffôn:

0800 023 4567 – am ddim i bobl sy'n ffonio o linell 'sefydlog' (e.e. llinell tir gartref).

0300 123 9123 – am ddim i ddefnyddwyr ffonau symudol sy'n talu'n fisol am alwadau i rifau sy'n dechrau gyda 01 a 02.

Drwy e-bost:

complaint.info@financialombudsman.org.uk

Ar-lein:

financial-ombudsman.org.uk

Cwynion am waith achos ar fewnfudo

Cyngor ar sut i gwyno am fewnfudo

Bydd Comisiynydd y Gwasanaethau Mewnfudo sy'n gyfrifol am safonau cyngor ar fewnfudo yn ymchwilio i gwynion am waith achos ar fewnfudo. Yn lle mynd i'ch swyddfa Cyngor ar Bopeth leol, gallwch gwyno ar unrhyw gam o weithdrefn gwyno'r gwasanaeth Cyngor ar Bopeth.

Yn y post:

Office of the Immigration
Services Commissioner
Complaints Team
5th Floor
21 Bloomsbury Street
London WC1B 3HF

Dros y ffôn:

0207 211 1500
0345 000 0046

Drwy e-bost:

complaints@oisc.gov.uk

Gwefan:

[gov.uk/find-an-immigration-adviser/
complain-about-an-adviser](http://gov.uk/find-an-immigration-adviser/complain-about-an-adviser)

citizensadvice.org.uk

Cyhoeddwyd Medi 2017

Mae Cyngor ar Bopeth yn enw gweithredu ar Gymdeithas Genedlaethol Cyngor ar Bopeth. Rhif elusen gofrestredig 279057.

Oes gennych chi gwyn am Cyngor ar Bopeth?



cyngor ar
bopeth

Os ydyn ni wedi eich siomi chi, rhowch wybod i ni

Rydyn ni eisiau i bawb sy'n defnyddio gwasanaeth Cyngor ar Bopeth i fod yn fodlon â'r gwasanaeth rydyn ni'n ei ddarparu.

Dyna pam ein bod ni eisiau clywed gennych chi os ydyn ni wedi eich siomi chi – **waeth pa mor fawr neu fach yw'r mater dan sylw.**

Yn aml, fe fyddwn ni'n gallu adfer pethau. A hyd yn oed os na allwn ni wneud hynny, bydd gwybod beth wnaethon ni o'i le o gymorth i ni wneud yn well yn y dyfodol.

Rydyn ni'n addo delio â phob cwyn yn sydyn, yn broffesiynol ac yn gyfrinachol.

Gofyn i'r ganolfan Cyngor ar Bopeth leol ddatrys y broblem

Mae'n bwysig rhoi gwybod i ni yn y ganolfan Cyngor ar Bopeth leol beth wnaethon ni o'i le, fel y gallwn ni wneud ein gorau i unioni'r sefyllfa.

Peidiwch â bod ofn siarad â'r Rheolwr neu'r un sy'n gyfrifol am gwynion, gan y bydd ef neu hi'n aml yn gallu datrys y broblem ar unwaith.

Os nad ydyn nhw'n gallu gwneud hynny, neu os ydych chi'n dal yn anfodlon, gallwch wneud cwyn ffurfiol.

Gwneud cwyn ffurfiol

Mae sawl ffordd o wneud cwyn. Gallwch ysgrifennu llythyr yn egluro beth ddigwyddodd a'i anfon i'r cyfeiriad ar gefn y daflen hon, neu ei adael yn y ganolfan Cyngor ar Bopeth leol rydych yn cwyno amdani.

Fel arall, gallwch ffonio neu e-bostio tîm Adborth Cyngor ar Bopeth gan ddefnyddio'r manylion ar gefn y daflen hon, ac fe wnawn nhw drosglwyddo eich cwyn i'r unigolyn priodol.

Bydd rhywun nad yw'n ymwneud yn uniongyrchol â'r mater yn ymchwilio i'ch cwyn. Os caiff y gŵyn ei chadarnhau, byddwn yn ymddiheuro'n llawn – a, lle bo'n briodol, byddwn yn rhoi gwybod i chi beth rydym yn ei wneud i unioni pethau.

Ein nod ni yw ymateb i bob cwyn o fewn wyth wythnos. Os bydd pethau'n cymryd mwy o amser na hyn, fe fyddwn ni'n esbonio pam ac yn rhoi gwybod i chi am gynnydd y mater.

Gofyn am adolygiad

Os ydych chi'n teimlo nad ydyn ni wedi delio â'ch cwyn yn briodol, neu os nad ydych chi'n fodlon ar y canlyniad, gallwch ofyn i ni adolygu'r penderfyniad.

Gofalwch eich bod yn gofyn am hyn o fewn pedair wythnos i dderbyn y penderfyniad drwy gysylltu â'r tîm Adborth – mae'r manylion ar gefn y daflen hon. Bydd yr adolygiad yn cael ei oruchwylio gan ein Prif Weithredwr.

Defnyddio dyfarnwr annibynnol

Os ydych chi'n dal i fod yn anhapus â'r penderfyniad, fe allwch chi gyfeirio eich cwyn at ddyfarnwr annibynnol.

Mae dyfarnwr annibynnol yn rhywun heb gysylltiad â Cyngor ar Bopeth a fydd yn penderfynu a ydyn ni wedi delio â'ch cwyn chi'n deg.

Os ydych chi eisiau bwrw ymlaen at y cam hwn, mae'n rhaid i chi gysylltu â ni o fewn pedair wythnos i dderbyn eich penderfyniad adolygu gan Cyngor ar Bopeth. Cysylltwch â'r tîm Adborth gan ddefnyddio'r manylion ar gefn y daflen hon.

Cysylltu â'r Gwasanaeth Ombwdsmon Ariannol

Mae'r Gwasanaeth Ombwdsmon Ariannol yn darparu gwasanaeth annibynnol am ddim i gleientiaid er mwyn datrys anghydfodau â darparwyr cyngor ar ddyledion nid-er-elw.

Dim ond ar ôl i'r ganolfan Cyngor ar Bopeth leol gael cyfle i ymchwilio i gŵyn y bydd y Gwasanaeth Ombwdsmon Ariannol yn camu i mewn, felly cysylltwch â'r gwasanaeth lleol yn gyntaf.

Os ydi eich cwyn chi'n ymwneud â chyngor ar ddyledion, neu os oeddech chi'n chwilio am gyngor ar eich cofnod credyd, ac nad ydych chi'n fodlon â'r ymateb terfynol, neu os oes wyth wythnos wedi mynd heibio ers i chi roi gwybod i ni gyntaf am eich pryderon, fe allwch chi ofyn i'r Ombwdsmon Ariannol adolygu eich cwyn.